Papur 4

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

John.Griffiths@senedd.cymru

8 Rhagfyr 2020

Annwyl John,

Yn dilyn mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Tachwedd i roi tystiolaeth ynghylch **Covid-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol**, cynigais ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn dau faes.

**Gwybodaeth bellach gan Rwydwaith Amgylcheddol y Trydydd Sector ynghylch annog y defnydd o wasanaethau awyr agored mewn cymunedau**

Soniais am wirfoddoli a chyfyngiadau'r pandemig mewn perthynas â sefydliadau amgylcheddol y trydydd sector. Mae fy swyddogion yn casglu gwybodaeth ar sefydliadau a gefnogir o dan Gronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio'r amgylchedd i gynnig gwasanaethau.

Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi cael pedwar cais am gefnogaeth o dan ein Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol hyd yn hyn (un wedi'i gymeradwyo a thri wrthi'n cael eu hasesu) am gyfanswm o £185k. Bydd y prosiectau hyn yn galluogi 78 o wirfoddolwyr i estyn allan a rhoi cymorth i dros 2,700 o bobl o bosibl drwy ystod eang o weithgareddau, o dyfu bwyd i chwaraeon antur.

Nid yw'r data sydd gennym o Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a Chronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru yn caniatáu i ni roi'r un lefel o wybodaeth i chi mor hawdd. Unwaith y bydd yr wybodaeth hon ar gael, byddaf yn rhoi diweddariad arall i chi.

**Gwybodaeth bellach am y fenter Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant**

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant wedi'i chynllunio i ddarparu hyfforddiant a chymorth wyneb yn wyneb i staff rheng flaen, gwirfoddolwyr a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sefydliadau er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth (dinasyddion) a datblygu eu sgiliau digidol fel eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau. Mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaeth Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant ddechrau cynorthwyo sefydliadau dros y ffôn a thrwy e-bost a, lle bo'n briodol, yn rhithiol, yn hytrach na thrwy'r dull wyneb yn wyneb traddodiadol.

Cofion gorau,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip